# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Tachwedd 2017

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

# - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 8 Ymchwiliad i Dechrau'n Deg: allgymorth - Sesiwn dystiolaeth 4

(13:30 - 14:30) (Tudalennau 1 - 3)

Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr - Yr Is-adran Plant a Theuluoedd

Richard Thurston, Addysg ac Ymchwil Sgiliau

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Dechrau'n Deg: allgymorth

Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cefndir**

Ar 22 Tachwedd cytunodd y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol i gyflwyno nodyn byr yn ymwneud â rhaglen Dechrau'n Deg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn ei gyfarfod yr wythnos nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd am dderbyn y nodyn erbyn 12 o'r gloch ddydd Gwener er mwyn cynnwys y wybodaeth ym mhapur briffio'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor yn sylweddoli bod yr amserlen hon yn fyr iawn, ac awgrymodd fod angen nodyn cryno yn unig sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Rhagor o wybodaeth am dystiolaeth y Gweinidog ynglŷn â gwaith Llywodraeth Cymru gyda'r pum awdurdod lleol sy'n treialu'r cynnig a Chronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) o safbwynt gwerthuso canlyniadau Dechrau'n Deg.
- A fydd y prosiect hwn yn cynnwys cysylltiad â data ar ddeilliannau addysgol?
- Pryd fydd yr allbwn yn cael ei gyhoeddi? A yw'r allbwn yn werthusiad o ganlyniadau Dechrau'n Deg yn y pum awdurdod lleol perthnasol? Gwybodaeth am y Prosiect Datblygu Llif Data a Phrosiectau Peilot Cysylltu Data Dechrau'n Deg.

Mae'r papur briffio yn dilyn yr un drefn â'r pwyntiau bwled hyn.

1. **Rhagor o wybodaeth am dystiolaeth y Gweinidog ynglŷn â gwaith Llywodraeth Cymru gyda'r pum awdurdod lleol sy'n treialu'r cynnig a Chronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) o safbwynt gwerthuso deilliannau Dechrau'n Deg.**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) er mwyn sicrhau seilwaith diogel ar gyfer cysylltu data iechyd personol at ddibenion ymchwil mewn ffordd ddienw, foesegol a diogel.

Cyflwynodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru gais llwyddiannus i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol am gyllid i gefnogi rhaglen ymchwil dair blynedd yn ymwneud â data gweinyddol cysylltiedig – sef y Prosiect Datblygu Llif Data (DDP).

Oherwydd cymhlethdodau cyfreithiol, bydd y prosiect yn edrych yn y lle cyntaf ar ddichonoldeb cyflwyno Cymhwysedd Data Ymchwil Cenedlaethol (NRDA), 'peiriant cysylltu' awtomatig, neu feddalwedd cyfatebol ym mhob Awdurdod Lleol. Dylai hyn leihau'r baich o ddarparu data ar gyfer Awdurdodau Lleol a sicrhau bod modd rheoli gwybodaeth yn ddiogel. Bydd y cynllun peilot yn ystyried a oes modd gosod a defnyddio'r dyfeisiau hyn mewn hyd at chwe Awdurdod Lleol:

- Sir y Fflint
- Abertawe
- Sir Fynwy

- Torfaen
- Gwynedd
- Caerdydd

O’r cychwyn cyntaf, cytunwyd y dylid cysylltu’r DDP â Phrosiect Peilot Cysylltu Data Dechrau’n Deg er mwyn sicrhau’r gwerth ychwanegol mwyaf posibl i bawb. Mae’r DDP yn darparu cymorth arbenigol amrywiol i Brosiect Peilot Cysylltu Data Dechrau’n Deg. Mae'r Awdurdodau Lleol eisiau sicrhau eu bod yn gallu dangos effaith y rhaglen Dechrau’n Deg, ac felly maent yn sylweddoli pwysigrwydd darparu tystiolaeth gadarn fel rhan o’r prosiect ehangach hwn.

Os yw’r cynllun peilot hwn yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd cais yn cael ei wneud am ragor o gyllid i osod y dyfeisiau neu’r feddalwedd yn yr Awdurdodau Lleol eraill a sefydlu prosesau llif data rheolaidd ar lefel Cymru gyfan i Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw.

Mae’r DDP a Phrosiectau Peilot Cysylltu Data Dechrau’n Deg yn cydweithio’n agos â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol i lunio’r prosiect, drwy Gyfarfodydd Rhwydwaith Dechrau’n Deg a Grŵp Cyfeirio Dechrau’n Deg DDP sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r Awdurdodau Lleol sy’n treialu’r rhaglen.

**2. A fydd y prosiect hwn yn cynnwys cysylltiad â data ar ddeilliannau addysgol?**

Bydd y prosiect hwn yn cynnwys cysylltiad â data ar ddeilliannau addysgol a chanlyniadau iechyd.

Amcanion y prosiect peilot hwn yw:

- Datblygu set o ddata safonedig i’w chasglu gan Awdurdodau Lleol ynglŷn ag ymgysylltiad plant Dechrau’n Deg â’r rhaglen
- Datblygu dull o sicrhau bod data unigol yn ymwneud â Dechrau’n Deg yn ddienw a’i anfon i’r Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw i’w gysylltu â setiau data gweinyddol rheolaidd dienw eraill
- Cysylltu data ymyriad Dechrau’n Deg â data iechyd, addysg a data arall at ddibenion gwerthuso.

**3. Pryd fydd yr allbwn yn cael ei gyhoeddi? A yw’r allbwn yn werthusiad o ddeilliannau Dechrau’n Deg yn y pum awdurdod lleol perthnasol?**

Gan fod y prosiect peilot hwn wrthi'n cael ei ddatblygu, nid yw'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi allbynnau wedi'u cytuno eto. Rhagwelir y bydd adroddiad dadansoddol yn seiliedig ar y cynllun peilot, ac mae'r manylion wrthi'n cael eu trafod.